

## Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd – Llais cymunedau ar iechyd a gofal

Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar sef 'Hywel Dda – Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd', a hynny am 12-wythnos rhwng 19 Ebrill a 12 Gorffennaf 2018. Roedd hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus i ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Dymunaf eich diweddarau ar y cynnydd hyd yn hyn ac ar y camau nesaf.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae adroddiad annibynnol wedi dod i law sy'n manylu ar rychwant a chwmpas barn cymunedau y Canolbarth a'r Gorllewin. Rhoddodd y bwrdd iechyd lawer o gyfleoedd gwahanol i bobl leisio'u barn, o lenwi holiaduron ffurfiol ac ysgrifennu i mewn, i fynychu digwyddiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrafodaethau ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn y rhai wnaeth ddewis ymateb ac yn amlygu rhai o'r materion allweddol i aelodau'r Bwrdd eu hystyried yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw cyn iddo gael ei dderbyn yn swyddogol gan y Bwrdd Iechyd mewn cyfarfod eithriadol, sydd i'w gynnal yn Siambrau Sir Caerfyrddin, a'i ddarlledu ar y We, ddydd Mercher 26 Medi 2018, lle y bydd model o'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn cael ei drafod. Rydym yn sicrhau bod yr adroddiad hwn ar gael nawr i'n cleifion, ein staff, ein rhanddeiliaid a'n cymunedau er mwyn i bob un ohonom allu neilltuo amser i ddarllen ac ystyried ei gynnwys.

### Beth sydd wedi cael ei ddweud?

O boblogaeth o tua 400,000, cafwyd 5,395 o ymatebion i'r holiadur, a gwelwyd pobl wyneb yn wyneb mewn mwy na 160 o ddiwyddiadau a ddenodd dros 4,000 o bobl. Daeth pum deiseb i law gyda bron 51,000 o lofnodion, a bu trafodaethau sylweddol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd yna gefnogaeth i rai elfennau o'r ymgynghoriad (\*gweler y nodiadau atgoffa ymghylch elfennau allweddol yr ymgynghoriad isod), gan gynnwys yr achos dros newid, cryfhau modelau cymunedol, gwahanu gofal wedi'i gynllunio a gofal brys (ond roedd y mwyafrif yn awgrymu y dylid gwneud hyn ar yr un safle), a darparu ysbyty newydd yn ne ardal Hywel Dda.

Fodd bynnag, roedd yna anghytuno sylweddol ynghylch lleoliadau'r ysbytai a'r hybiau cymunedol arfaethedig, gydag awgrymiadau cyson y dylid ystyried lleoli hybiau yn Aberdaugleddau/Neyland, Abergwaun/Wdig, Crymch, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul, ynghyd â phryder cyffredinol ynghylch colli gwelyau cymunedol, yn enwedig mewn perthynas ag Ysbyty Dyffryn Aman.

Roedd yna lefel uchel o anghytuno dros y lleoliad arfaethedig ar gyfer ysbyty gofal brys ac argyfwng newydd. Roedd yr adborth yn amlygu dadleuon cystadleuol dros adeiladu'r ysbyty newydd ger Caerfyrddin, oherwydd dwysedd poblogaeth y dref ei hun ac oherwydd bod y lleoliad yn ganolog rhwng Hwlfordd a Llanelli; ac ymhellach i'r Gorllewin o ystyried bod mynediad o'r lleoliadau hyn eisoes yn fater pwysig cydnabyddedig.

Mae themâu pryder allweddol wedi dod i'r amlwg, gan gynnwys teithio a mynediad at wasanaethau, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n fwy agored i niwed neu sy'n ynysig; seilwaith y ffyrdd a chyfyngiadau o ran trafnidiaeth gyhoeddus; gofynion o ran adnoddau, gan gynnwys costau a staffio; effeithiau rhanbarthol, er enghraifft yr effaith ar fyrdau iechyd eraill ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru; a'r gallu i ddarparu'r gofal sylfaenol a'r gofal cymunedol sy'n ofynnol er mwyn i fodel o'r fath weithio, ymhlith eraill.

Yn gyffredinol, roedd yna dipyn mwy o gefnogaeth i Gynigion A a B nag i Gynnig C, ac roedd yna gefnogaeth sylweddol i opsiynau amgen – roedd y mwyafrif helaeth yn galw am gadw neu wella'r gwasanaethau presennol yn Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlfordd, a rhai yn galw am integreiddio neu uno Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Abertawe Bro Morgannwg.

Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod Cynnig A yn debygol o wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'w buddsoddi ac i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, ac roedd llawer o'r farn na ddylid tanbwysleisio manteision mabwysiadu'r opsiwn mwyaf costeffeithiol o ystyried y pwysau ariannol parhaus ac anghenion cynyddol poblogaeth sy'n heneiddio.

Awgryma'r adborth mai'r prif fanteision o blaid Cynnig B oedd y gallu i ddarparu gwasanaethau yn lleol, yn ardal y Bwrdd Iechyd, a hynny i gynifer o bobl â phosibl. Roedd llawer yn pryderu y byddai'r niferoedd mawr o breswylwyr o'r ardaloedd mwyaf poblog, yn anochel, yn dewis cael gwasanaethau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg pe na fyddai Ysbyty'r Tywysog Philip yn parhau i fod yn Ysbyty Cyffredinol Lleol.

Roedd pobl yng Ngheredigion yn tueddu i gefnogi Cynnig A, yn cael ei ddilyn gan B; roedd pobl o Sir Gaerfyrddin yn tueddu i gefnogi Cynnig B, yn cael ei ddilyn gan C; ac roedd pobl Sir Benfro yn tueddu i gefnogi Cynnig A dros B ac C, ond gyda chefnogaeth sylweddol yn cael ei roi i gynnig amgen. Roedd staff y GIG yn tueddu i ffafrio Cynnig B dros Gynnig A.

## **Beth nesaf?**

Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn mynd trwy gyfnod o 'ystyriaeth gydwybodol', lle bydd yn ystyried y farn a'r goblygiadau a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad, ac yn asesu unrhyw opsiynau amgen a gyflwynir, cyn ailwerthuso a chynnig model o'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae cyfres o gyfarfodydd â staff clinigol a rhanddeiliaid allweddol wedi cael eu trefnu, er enghraifft sefydliadau eraill sy'n darparu gofal, ynghyd â Chyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, i ymgymryd â'r gwaith hwn. Cynhelir dau gyfarfod â rhanddeiliaid ehangach, un â chynrychiolwyr o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, ac un arall â grŵp ehangach, ac estynnwyd gwahoddiadau i'r rhai sydd eisoes wedi cymryd rhan sylweddol yn yr ymgynghoriad. Er mwyn rhannu hyn yn ehangach, bydd crynodeb o ganlyniad y cyfarfodydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn adnodd ymgynghorol y Bwrdd Iechyd ar y We, sydd ar gael yn [www.bihyweldda.wales.nhs.uk/trawsnewidhdd](http://www.bihyweldda.wales.nhs.uk/trawsnewidhdd) o dan 'Y Camau Nesaf'.

Bydd unrhyw gynigion amgen a awgrymir yn rhan o'r ymgynghoriad yn mynd trwy'r un broses â'r rhai a ystyriwyd cyn yr ymgynghoriad. Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu a oedd unrhyw ddewisiadau amgen eisoes wedi cael eu hystyried, eu hasesu a'u diystyru cyn yr ymgynghoriad. Bydd unrhyw gynig newydd amgen yn cael ei ddadansoddi (ar sail cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (dadansoddiad SWOT)) gan amrywiaeth o staff clinigol er mwyn asesu a yw'n ymarferol. Os yw'r cynnig yn ymarferol, byddai'r gweithgarwch, yr amser teithio, fforddiadwyedd, ac ati, yn cael eu modelu, a byddai ymarfer sgorio yn cael ei gynnal rhwng y cynigion gwahanol sy'n cyrraedd y cam hwn. Os bydd cynnig arall yn cael sgôr gyfwerth neu fwy na'r cynigion a aeth i ymgynghoriad cyhoeddus, cynhelir asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a chyflwynir y cynnig i Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd iddo bennu a yw'n ymarferol.

Os bydd y cynnig amgen yr un peth, yn fras, ag un o'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt, ond bod iddo rai addasiadau nad oes iddynt unrhyw effeithiau negyddol gormodol, gellir mabwysiadu hwn heb orfod ymgynghori ymhellach. Fodd bynnag, os bydd y cynnig amgen yn wahanol iawn i'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt eisoes, efallai y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall.

Bydd ffordd ymlaen, dan arweiniad clinigwyr, yn cael ei hargymell i'r Bwrdd Iechyd cyhoeddus ddydd Mercher 26 Medi, yn Siambrau Sir Caerfyrddin, a darlledir hyn ar y We er mwyn hwyluso mynediad i'r cyhoedd at y drafodaeth a'r ddadl lawn.

Ni fydd yr ymgynghoriad yn cael ei bennu yn ôl niferoedd yn unig, na chan un canlyniad cyfunol, gan ei bod yn anochel y bydd gan y boblogaeth safbwyntiau gwahanol ar y cynigion, a chan fod pob barn yn bwysig ac yn ddilys.

Wrth wneud unrhyw benderfyniad, bydd angen i aelodau'r Bwrdd ystyried y farn glinigol, popeth y maent wedi'i glywed yn ystod y cyfnod darganfod (ymgysylltu yn ystod haf 2017) a phopeth y maen nhw wedi'i glywed yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol, yn ogystal â materion yn ymwneud â diogelwch, ansawdd, cynaliadwyedd y gwasanaethau a chydraddoldeb.

Dymunaf ddiolch i chi am eich cyfraniad hyd yn hyn ac edrychwn ymlaen at siarad â chi eto wrth i ni barhau ar ein taith. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes arnoch angen mwy o wybodaeth neu os ydych yn dymuno trafod unrhyw bryderon neu gyfleoedd.

Yn gywir


**Sarah Jennings**  
**Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol**

**Ymgynghoriad Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd** – nodiadau atgoffa cryno o elfennau allweddol yr ymgynghoriad – mae'r manylion llawn i'w gweld yn yr adnoddau sydd wedi'u harchifio: [www.bihyweldda.wales.nhs.uk/trawsnewidhdd](http://www.bihyweldda.wales.nhs.uk/trawsnewidhdd)

**Hybiau'r model cymunedol:**

**Community Hubs**

Supporting services in our communities, alongside our community and general hospitals.



For more detail on what services are in the hubs, see page 49. Please note Tenby would have a seasonal Minor Injuries Unit.

**Y cynigion o ran ysbytai:**



2 main hospitals: Bronglais & new urgent + planned care hospital  
 3 community hospitals: Glangwili, PPH, Withybush  
 10 community hubs (no beds at AVH as community beds at Glangwili & PPH)

3 main hospitals: Bronglais & new urgent + planned care hospital, PPH  
 2 community hospitals: Glangwili, Withybush  
 10 community hubs (no beds at AVH as community beds at Glangwili & PPH)

4 main hospitals: Bronglais & new urgent care hospital, Glangwili as planned care hospital, PPH  
 1 community hospitals: Withybush  
 10 community hubs (beds at AVH as no community beds at Glangwili & PPH)